


## Lleoliad Talaith Chubut, ynghyd â deongliadau o'r term 'Y Wladfa'



### Prif leoliadau Talaith Chubut, gan gynnwys manau a ystyrir yn rhan o'r Wladfa Gymreig, a lleoliad y dalaith o fewn yr Ariannin (ffynhonnell: R. O. Jones 1998: t. 289)

Perthyn i Dalaith Chubut yn ne'r Ariannin (gweler y map yn y gornel dde isaf) y mae'r 'Wladfa (Gymreig)' heddiw (ers 1955). Nid yw'n arferol cysylltu'r Wladfa â'r dalaith i gyd er hynny, ond yn hytrach â thair ardal benodol, sef Dyffryn Camwy, sydd yn nwyrain y rhanbarth yn ymestyn o Rawson i diroedd y tu hwnt i Ddolavon; porthladd Porth Madryn, tua 65 cilometr i'r gogledd o Rawson; a Chwm Hyfryd, sy'n ffinio â Chile ac yn cynnwys trefi Esquel a Threvelin (fel y gwelir oddi wrth brif fap y ffigur uchod). Dylid pwysleisio bod cysylltiadau teuluol a diwylliannol cryfion yn parhau'n amlwg rhwng Dyffryn Camwy a Chwm Hyfryd er gwaetha'r 550 cilometr o anialdir – neu'r 'Paith' – sy'n eu gwahanu.

Ceir tueddiad heddiw i ddisgrifio'r ffurf '(g)wladfa' fel cyfieithiad llythrennol o *colony* y Saesneg, ond cyfeiliornus braidd yw hyn gan mai'r cyfieithiad 'llythrennol' go iawn ar gyfer 'gwlad' + '-fa' yw *country place*. Diddorol yw dehongliad F. Williams (2015: t. 155) yn y cyswllt hwn o arwyddocâd y cysylltiad rhwng 'gwlad' a 'gwladfa' yn y Gymraeg, 'perthynas lle [y] mae'r ail yn tarddu o'r [gair] cyntaf, sydd yn ei dro, yn creu'r syniad o fersiwn newydd

o'r *wlad* honno. Nid yw'r fath berthynas i'w gweld yn y gair “*colony*” neu “*colonia*”, sydd, yn gyffredinol, yn cario synnwyr negyddol o wladychu fel arf imperialaidd a ail-luniodd fap y byd i gyd dros ganrifoedd' (efe biau'r italeiddio).

Er gwaetha'r arfer o ystyried 'y Wladfa' fel tiriogaeth ddiffiniedig, diddorol nodi dadl arall gan F. Williams (ibid: t. 156) nad yw'r 'Wladfa', na chwaith yr enw Sbaeneg cyfatebol '*la colonia galesa*', yn ddim ond enwau 'ar raglen y fenter yn unig', ac ymhellach, '[y] gall *Y Wladfa* gael ei hystyried fel darn o dir ffuglennol a ddyfeisiwyd gymaint gan bregethau y “founding fathers” â'r hanesyddiaeth a fyddai'n dilyn' (ibid.; gweler hefyd F. Williams 2008). Gellir nodi yn y cyswllt hwn fod Brooks (2012) yn awgrymu bod 'y Wladfa' yn cwmpasu ardaloedd ar wahân i'r tair tiriogaeth a nodwyd eisoes oherwydd eu cysylltiad ag ymfudwyr Cymreig. Yr ardaloedd a enwir ganddo yntau yw Sarmiento a Comodoro Rivadavia, sydd hefyd yn Nhalaith Chubut (gweler hefyd James 2010, a ddisgrifiodd yr ardaloedd hyn yn Chubut fel 'y Wladfa “goll”'), Choele Choel yn nhalaith gyffiniol Río Negro, a hyd yn oed Buenos Aires, prifddinas yr Ariannin, lle y bu cymuned Gymreig fywiog tan yn ddiweddar.

## Cyfeiriadau

Brooks, W. A. (2012), 'Welsh Print Culture in Y Wladfa: The Role of Ethnic Newspapers in Welsh Patagonia, 1868–1933', traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Prifysgol Caerdydd. Ar gael hefyd ar-lein:

<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/46450/1/WelshPrintCultureInYWladfaWalterBrooks.pdf> [Cyrchwyd: 6 Gorffennaf 2023].

James, E. W. (2010), 'Y Wladfa “Goll”', *Y Dinesydd*, Hydref 2010, t. 9.

Jones, R. O. (1998), 'Yr Iaith Gymraeg yn y Wladfa', yn Jenkins, Geraint H. (gol.), *Iaith Carreg fy Aelwyd: Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 281–305.

Williams, F. (2008), 'La autonomía de la colonia galesa de la Patagonia como objeto de estudio', yn Gavirati, M. a Coronato, F. (goln), *Los Galeses en la Patagonia*, III (Puerto Madryn: Asociación Punta Cuevas), tt. 307–32.

Williams, F. (2015), 'Yr Hen Wlad a'r Hen Wladfa: nodiadau ar gyfer llunio persbectif o safbwynt Patagonia, 150 mlynedd ers y glaniad cyntaf', *Y Traethodydd: Y Wladfa 150*, CLXX (714), 141–58.